



Animal &
Plant Health
Agency

Y clafr - ymwrthedd

Gorffennaf 2020

Cefndir

Achos pwysig o broblemau iechyd a lles ymysg y praidd cenedlaethol yw'r clafr a achosir gan y gwiddonyn *Psoroptes ovis*, sy'n peri cost sylweddol i ddiwydiant ffermio defaid y DU.

Yn 2017, nododd gwaith gwylidwriaeth sganio gan APHA achosion lle nad oedd defaid yr effeithiwyd arnynt gan wyddon y clafr (*Psoroptes ovis*) wedi ymateb i driniaethau â chynnyrch chwistrelladwy sy'n cynnwys cynhwysyn gweithredol y lacton macrogylchol moxidectin.

Casglwyd gwyddon o bedwar praidd, a sefydlwyd cydweithrediad rhwng APHA a Phrifysgol Bryste, gyda'r Brifysgol yn cynnal ymchwil a phrofion *in vitro* i gymharu gwyddon o'r ffermydd hyn, â math o wyddon a gedwir yn Athrofa Ymchwil Moredun y gwyddys ei fod yn ymateb yn llawn i'r cynnyrch chwistrelladwy a ddefnyddiwyd, i weld a oedd y gwyddon wedi datblygu ymwrthedd iddo. Cyhoeddwyd canlyniadau'r astudiaeth hon yn *Veterinary Record*, First evidence of resistance to macrocyclic lactones in *Psoroptes ovis* sheep scab mites in the UK (Doherty ac eraill 2018). Ymchwiliodd Prifysgol Bryste, APHA ac Athrofa Ymchwil Moredun i achosion pellach o'r hyn a oedd yn ymddangos fel triniaeth yn methu, gan ddangos ymwrthedd i lactonau macrogylchol chwistrelladwy eraill wedyn - Multiple resistance to macrocyclic lactones in the sheep scab mite *Psoroptes ovis* (Sturgess-Osborne ac eraill 2019).

Mae hyn yn peri pryderon sylweddol:

1. Mwy o driniaethau yn methu, ac ymdrechion i reoli'r clafr yn methu o ganlyniad i bresenoldeb gwyddon ag ymwrthedd i lactonau macrogylchol.
2. Mwy o achosion o'r clafr a mwy o ledaenu.
3. Mae tystiolaeth sy'n dangos y gall gordefnyddio triniaethau ataliol (lactonau macrogylchol) ar gyfer y clafr, p'un a ydynt yn llwyddiannus ai peidio, arwain at sefyllfa lle mae llyngyr y coluddyn yn datblygu mwy o ymwrthedd i'r cynhyrchion hyn.

Diagnosis

Mae'n bosibl mai llau cnoi, sef *Bovicola ovis*, sy'n effeithio ar ddefaid sy'n cosi, neu wyddon y clafr, sef *Psoroptes ovis*, neu'r DDAU ar yr un pryd. Felly, yn achosion defaid sy'n cosi ac sydd wedi colli gwlân, mae'n bwysig cael diagnosis cywir.

Mae dau ddull ar gael, sef prawf crafu'r croen a phrawf ELISA gweddol newydd am *Psoroptes ovis*.

Ar ôl i wyddon *Psoroptes ovis* heigio ar ddefaid, gall gymryd sawl wythnos cyn i'r defaid â'r gwyddon ddechrau crafu a rhwbio. Mae hyn yn rhoi amser i'r gwyddon ledaenu i ddefaid eraill.

Mewn rhai achosion, gall fod yn anodd canfod gwyddon ar grafion croen, ac nid yw rhai preiddiau yn dangos fawr ddim arwyddion clinigol o'r clafr, os o gwbl, yn enwedig os yw wedi bod ar led yn y praid ers cryn amser. Gall y prawf ELISA hwn fod o ddefnydd yn yr achosion hyn. Gall y prawf ELISA am *Psoroptes ovis* ganfod gwrthgyrff i wyddon y clafr mewn serwm o bythefnos ar ôl i'r gwyddon heigio ar y praid, felly gall fod yn ddefnyddiol dangos bod y gwyddon yno cyn i arwyddion clinigol ddatblygu, neu mewn sefyllfaoedd eraill lle nad oes llawer o wyddon. Dylid cynnal profion ar o leiaf 12 o anifeiliaid o unrhyw grŵp yr amheuir bod y clafr arno, a dylid cynnwys yr anifeiliaid sy'n cosi.

Mae'n hanfodol cael dehongliad milfeddygol o ganlyniadau ELISA, gan fod angen ystyried hanes triniaeth ac asesu'r ffactorau risg. Cyhoeddwyd papur yn disgrifio'r defnydd o'r prawf ELISA (Hamer ac eraill 2019).

Triniaeth

Dim ond dau fath o driniaeth sydd ar gael ar gyfer y clafr yn y DU, sef lactonau macrogylchol chwistrelladwy ac ardaloedd trochi diasinon organoffosffad. Mae'n bwysig iawn cydnabod bod ymwrthedd i driniaethau chwistrelladwy ymysg gwyddon *Psoroptes ovis* yn y DU yn bresennol/wedi'i gadarnhau, a'i fod yn cynyddu o bosibl.

Gan nad y clafr yw'r unig beth sy'n peri i ddefaid grafu, mae'n bwysig cadarnhau'r diagnosis er mwyn sicrhau y cânt eu trin â'r cynnyrch cywir. Ni fydd cemegion pyrethroid synthetig a gaiff eu harllwys dros y ddafad yn lladd gwyddon y clafr, ac ni fydd pigladau â meddyginiaethau dilyngyr (e.e. Ivomec, Dectomax, Cydectin) yn lladd llau.

Fodd bynnag, bydd y defnydd o ardaloedd trochi diasinon organoffosffad yn lladd gwyddon y clafr a llau. Mae'n bosibl na fydd cyfleusterau trochi gan lawer o ffermydd, ond mae mwy a mwy o gontractwyr a all ddarparu gwasanaeth trochi symudol.

Os bydd ymwrthedd yn bresennol ymysg y gwyddon ar y fferm, ac os caiff y gwyddon eu gwaredu drwy driniaeth amgen gywir, ni fyddai unrhyw wyddon ag ymwrthedd sy'n weddill yn yr amgylchedd, mewn tagiau gwlan er enghraifft, yn goroesi'n hir (hyd at tua 17 diwrnod). Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa o ran ymwrthedd ymysg llyngyr gastroberfeddol, lle y bydd llyngyr ag ymwrthedd yn goroesi yn yr amgylchedd am flynyddoedd.

Crynodeb

- Dylech gymryd y clafr o ddifrif, ac annog perchenogion preiddiau i wneud yr un peth.
- Wrth ymchwilio i achosion a amheuir, cymerwch grafion croen a samplau gwaed o'r grŵp er mwyn helpu i gael diagnosis.
- Dylid sicrhau eich bod yn cael y samplau crafu'r croen gorau drwy archwilio'r grŵp o anifeiliaid a dewis yr anifeiliaid mwyaf coslyd. Edrychwch am gnu sydd wedi newid lliw neu sy'n wlyb. Fel arfer bydd y gwyddon i'w gweld o amgylch ymylon llaith y briw.

- Cymerwch samplau gwaed o 12 o'r anifeiliaid yn y grŵp dan sylw o leiaf, gan gynnwys yr anifeiliaid coslyd, yn ddelfrydol gan nodi'r anifeiliaid y cymerwyd samplau gwaed ohonynt i sicrhau y byddwch yn gallu eu hailbrofi os bydd angen.
- Dylech argymhell cynnal profion yn lle'r triniaethau proffylactig arferol am y clafr, a dim ond os cadarnheir bod y clafr ar ddefaid newydd dan gwarantyn cywir y dylech argymhell rhoi triniaeth iddynt.
- Cofiwch ei bod yn bosibl bod praidd wedi'i heigio, hyd yn oed os nad oes unrhyw arwyddion clinigol, ac y bydd profion gwaed yn hanfodol yn yr achos hwn. Gallai hyn gynnwys anifeiliaid yn pori ar dir cyffredin, ond hefyd os cafwyd adroddiadau lleol am y clafr. Mae hefyd yn bosibl y bydd anifeiliaid yn cael y clafr drwy ddefaid cyfagos sy'n dioddef ohono, neu gyfleusterau a rennir.
- Dylech annog porwyr i gydweithio er mwyn cydlynu triniaethau.
- Dylech ymchwilio i driniaethau nad ydynt yn effeithiol o bosibl, gan roi gwybod am bryderon i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. <https://www.gov.uk/report-veterinary-medicine-problem>
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cymdeithas y Milfeddygon Defaid https://www.sheepvetsoc.org.uk/sites/default/files/SVS%20Sheep%20scab%20guidance%20for%20vets%202018_0.pdf
- Gellir dod o hyd o ragor o wybodaeth am y prawf ELISA yma http://www.biobest.co.uk/assets/files/forms/Sheep%20scab%20FAQs_website_version_1_June18.pdf

Os byddwch yn amau nad yw praidd yn ymateb i driniaeth ar gyfer y clafr, cysylltwch ag un o Ganolfannau Ymchwiliadau Milfeddygol APHA i drafod ymchwilio ymhellach.

Mae manylion cyswllt y Canolfannau Ymchwiliadau Milfeddygol yng Nghymru a Lloegr ar Borth Milfeddygon APHA, yn ogystal â gwybodaeth arall am y rhwydwaith gwyliadwriaeth. <http://apha.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance/diagnostic/national-network.htm>

Cyfeiriadau

DOHERTY, E., BURGESS, S., MITCHELL, S. a WALL, R. (2018) First evidence of resistance to macrocyclic lactones in *Psoroptes ovis* sheep scab mites in the UK. *Veterinary Record*

HAMER, K., BURGESS, S., BUSIN, V. a SARGISON, N. D. (2019) Performance of the *Psoroptes ovis* antibody enzyme-linked immunosorbent assay in the face of low-level mite infestation. *Veterinary Record* 185, 107-107

STURGESS-OSBORNE, C., BURGESS, S., MITCHELL, S. a WALL, R. (2019) Multiple resistance to macrocyclic lactones in the sheep scab mite *Psoroptes ovis*. *Vet Parasitol* 272, 79-82



(h) Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwrch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Diogelu Data:

I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Personol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: siu@apha.gov.uk

www.gov.uk/apha

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.